

Tystysgrif i Raddedigion
Porth Agored
Rhaglen Gadarnhau
Gweithdy 4

Disgwyliadau/Rheolau Sylfaenol ar gyfer Gweithdai

- Cyfrinachedd
- Parch
- Un person i siarad ar y tro. Codwch eich llaw os hoffech wneud sylw
- Os ar-lein, defnyddiwch yr emoji 'llaw i fyny' neu'r blwch trafod
- Cyfrannu - plîs cyfrannwch a cheisiwch gadw ffocws

Gweithdy 4 Nodau ac Amcanion

- Egluro gofynion Tasg 4 – Diogelu mewn maes nad yw'n brif faes gwaith i chi
- Egluro gofynion Tasg 1 rhan b yr Adolygiad Datblygiadol
- Ystyried y meini prawf marcio ar gyfer pob tasg
- Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer cyflwyniad llwyddiannus
- Atgoffa am y rheolau ar Gyfrinachedd a Llên-ladrad
- Proses Gyflwyno
- Amser unigol gyda'r hyfforddwr i edrych dros eich portffolio

Dal i Fyny

Sut ydych chi'n
dod ymlaen gyda:

- Cwblhau eich portffolios?
- Defnyddio Moodle?



Tasg Portffolio 4

Y Cwestiwn

Cwestiwn a:

- Mewn maes **nad yw'n brif faes gwaith i chi** esboniwch y ddeddfwriaeth berthnasol, a'r polisiau a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol ar gyfer diogelu (500 gair +/-10%).

Cwestiwn b:

- Adlewyrchwch ar y gwahaniaeth rhwng diogelu mewn gwaith oedolion a phlant (400 gair +/-10%).

Tasg Portffolio 4 – Canlyniadau Dysgu

Canlyniad Dysgu

3. Ymyrryd a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth

Naill ai - Os yw eich astudiaeth achos (Tasg 3) yn ymwneud â diogelu PLANT

- 3.3. Deall rôl gwaith cymdeithasol proffesiynol yng nghyswllt diogelu oedolion sydd mewn perygl

Neu - Os yw eich astudiaeth achos (Tasg 3) yn ymwneud â diogelu OEDOLION

- 3.4 Deall rôl gwaith cymdeithasol proffesiynol yng nghyswllt diogelu plant sydd mewn perygl
- Gweler atodiad 4 y llawlyfr am y meini prawf asesu.

Ymarfer 1

Tasg 4 - rhan a

Mewn grwpiau

- Ystyriwch y ddeddfwriaeth berthnasol, a'r polisiau a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol ar gyfer diogelu mewn maes **nad** yw'n brif faes gwaith i chi e.e. oedolion neu blant.



Diogelu Oedolion dan SSWB(C)A, 2014

- Diffiniad o oedolyn mewn perygl
- Dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i adrodd am oedolion mewn perygl
- Dyletswydd awdurdodau i wneud ymholiadau
- Mae angen gofal a chymorth ar oedolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso (dod yn gymwys)
- Mae cam-drin yn eang ei gwmpas - mae angen i chi ddangos tystiolaeth eich bod yn gallu adnabod hyn mewn unrhyw leoliad, e.e. dangosyddion bod oedolyn mewn perygl.

Diogelu Plant dan SSWB(C)A, 2014

- Diffiniad o blentyn mewn perygl
- Dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i adrodd am blant sydd mewn perygl
- Awdurdod lleol i wneud ymholiadau – cysylltu â Deddf Plant 1989, A47
- Os yw plentyn yn profi neu mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu fathau eraill o niwed, mae angen gofal a chymorth arno (p'un a yw'r anghenion hynny'n cael eu diwallu ai peidio).
- Mae cam-drin yn eang ei gwmpas - mae angen i chi ddangos tystiolaeth eich bod yn gallu adnabod hyn mewn unrhyw leoliad, e.e. dangosyddion bod plentyn mewn perygl.

Gweler PowerPoint Gweithdy 3 am restr fanwl o ddeddfwriaeth/polisiau a gweithdrefnau diogelu.

Byrddau Diogelu



Swyddogaeth



Amddiffyn ac atal



Cyfrannu at bolisi/gweithdrefn genedlaethol



Codi ymwybyddiaeth

Adolygu effeithlonrwydd

Adolygiadau ac archwiliadau ymarfer

Lledaenu gwybodaeth

Cydweithio â byrddau eraill.

Ymarfer 2

Tasg 4 - rhan b

- Adlewyrchu ar y prif wahaniaethau rhwng diogelu plant neu oedolion mewn perygl?

Plant ac Oedolion: Gwahaniaethau mewn Diogelu

Plant

- Mae lles y plentyn bob amser yn brif ystyriaeth (paramount) (egwyddor prif ystyriaeth Deddf Plant 1989).
- Fodd bynnag, mae cymhwysedd (competency) Gillick a chanllawiau Fraser yn gymorth i'r rai sy'n gweithio gyda phlant i gael cytbwysedd rhwng yr angen i wrando ar ddymuniadau'r plentyn a'r cyfrifoldeb i'w cadw'n ddiogel.
- Gall plentyn o dan 16eg oed gael ei weld yn Gymwys Gillick/Gillick Competent h.y. maent yn cael eu gweld yn ddigon aeddfed i wneud penderfyniadau am rai pethau sy'n eu heffeithio ac yn deall oblygiadau hyn.
- Fodd bynnag, mae trothwyon ynglŷn a beth fyddai'n cael ei ystyried yn fater diogelu, pan fyddai'n rhaid diogelu plentyn waeth beth yw eu cymhwysedd o dan y canllawiau Gillick/Fraser.



Plant ac Oedolion: Gwahaniaethau mewn Diogelu

Oedolion

- Mae hawl oedolyn i hunan benderfyniad (self-determination) angen ei ystyried ochr yn ochr â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, 2005.
- Mae gan oedolion hawl i ddewis i beidio a diogelu eu hunain a'r gyfraith ddim yn gorfodi ymyrryd gan fod ganddynt hawl i hunan benderfynu, fodd bynnag mae eithriadau i hyn ac mae'n rhaid ystyried 'cydsynio' (consent) yng nghyd destun Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Adolygiad Datblygiadol - Tasg 1 rhan b

Y Cwestiwn

- **Cwestiwn:**
- Defnyddiwch fodel adlewyrchu i **adlewyrchu'n feirniadol** ar yr anghenion dysgu a nodwyd gennych yn nhasg 1 rhan a o dan bob un o 3 chanlyniad dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru.
- **Rhaid** i hyn gynnwys cyfeiriad at hyfforddiant, dysgu, ymchwil a goruchwyliaeth ac adlewyrchu gyda'ch mentor/goruchwyliwr/rheolwr llinell ar y graddau y mae eich canlyniadau dysgu wedi'u cyflawni.
- **Adnabod** eich anghenion dysgu i gefnogi eich datblygiad yn y pontio i ddod yn ymarferydd profiadol yn eich gyrfa yn y dyfodol ar ôl cwblhau'r rhaglen hon.
- **650 o eiriau** (+/- 10%: nodwch eich cyfrif geiriau gwirioneddol ar ddiwedd pob adran).
- **Cwestiwn**
- Adlewyrchwch ar adborth a gawsoch gan unigolion sydd angen gofal a chymorth a/neu eu gofalcwyr ac esboniwch sut mae'r wybodaeth hon wedi **helpu i lunio** eich ymarfer a'ch datblygiad proffesiynol yn y dyfodol.
- **100 o eiriau** (+/- 10%: nodwch eich cyfrif geiriau gwirioneddol ar ddiwedd pob adran).

Cynllunio Datblygiad Personol (PDP)

Mae PDP yn broses sy'n:

- Dyfnhau eich dealltwriaeth ohonoch chi'ch hun
- Eich gwneud yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n eich cymell
- Eich helpu i lunio'r hyn rydych chi ei eisiau mewn gwirionedd o'ch bywyd a'ch gyrfa
- Eich helpu i wynebu'ch cyfyngiadau a mynd i'r afael â'r rhain yn realistig
- Eich helpu i weld eich hun fel y mae pobl eraill yn eich gweld
- Eich cynorthwyo i gynllunio dros y tymor hwy tuag at nodau sy'n bwysig i chi.



Beth Mae PDP yn ei Gynnwys

Adlewyrchu - Bydd ffocws yn newid dros amser, ond bydd yn cynnwys materion fel pwy ydych chi, pa fath o ymarferydd rydych chi am fod, pa ddewisiadau eraill sydd ar gael a beth ydych chi wedi'i ddysgu

Cynyddu Hunanymwybyddiaeth - Gan gynnwys cryfderau, diddordebau, ysbrydoliaeth, hoffterau a rhinweddau unigol, a'ch cyfyngiadau eich hunain.

Caffael Gwybodaeth - Dod i wybod am gyfleoedd a dewisiadau sy'n agored i chi, ac sy'n ehangu eich persbectif

Cymryd Cyfrifoldeb Personol - Cymryd cyfrifoldeb am eich addysg, hyfforddiant, dysgu a dewisiadau eich hun

Datblygu Strategaeth - I'ch cael chi i'r lle rydych chi eisiau bod. Eich helpu i gynllunio, gosod targedau, gweithredu, datblygu sgiliau, ac adolygu eich sefyllfa

Canlyniad au Dysgu Tasg 1 - Rhan b

1 - Cymhwyso dadansoddiad wrth asesu i lywio ymyriadau

1.5. - Gallu defnyddio adfyfyrion beirniadol i werthuso ei ddadansoddiad ei hun mewn asesiadau gwaith cymdeithasol

Cydweithio â phobl sy'n cael gofal a chymorth, eu gofalu a gweithwyr proffesiynol eraill

2.3. - Adfyfyrion feirniadol ar ei gydweithio ei hun

3.2. - Gallu rheoli ei rôl fel gweithiwr cymdeithasol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth

3 - Ymyrryd a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth

3.7. - Gallu ymarfer atebolrwydd proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth.

Gweler atodiad 4 y llawlyfr am y fersiwn lawn.




Tasg 1 Rhan a – Adolygiad Datblygiad Proffesiynol



Ymarfer 3


Adlewyrchu ar eich dysgu a'ch datblygiad ers cwblhau Tasg 1 rhan a (dros y flwyddyn ddiwethaf); gan gynnwys cyfeiriad at hyfforddi, dysgu, ymchwil a defnyddio goruchwyliaeth.

- I ba raddau y mae'r anghenion dysgu a nodwyd gennych o dan ganlyniadau dysgu SSCW 3 ar ddechrau'r broses hon (tasg 1, rhan a) wedi'u cyflawni?
- Meddyliwch am yr hyn sydd wedi gweithio'n dda neu nad yw wedi gweithio cystal i chi o ran eich dysgu.
- Defnyddiwch fodel adlewyrchu
- o'ch dewis (gweler gweithdy 1).



Pwysigrwydd Datblygiad a Dysgu Proffesiynol Parhaus

- Mae gwaith cymdeithasol yn gofyn am lefel uchel o sgil rhyngpersonol ac eglurder cyfathrebu i sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed, i wrando ar eraill ac i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion.
- Er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac ymarfer yn effeithiol mewn sefyllfaoedd cymhleth, bydd angen i chi weld pob diwrnod gwaith ac yn wir, pob cyfarfyddiad gwaith cymdeithasol fel cyfle i adlewyrchu a dysgu, nid yn unig o'ch profiadau eich hun, ond o brofiadau pobl eraill.
- Meddwl agored, gonestrwydd, hunanymwybyddiaeth a gostyngeiddrwydd yw conglfeini dysgu ac felly ymarfer gwaith cymdeithasol effeithiol.



Tasg 1, Rhan b

Ymarfer 4

- Pa anghenion dysgu newydd allwch chi eu nodi ar gyfer eich datblygiad proffesiynol yn y dyfodol?
- Er enghraifft, a oes unrhyw ganlyniadau dysgu nad ydych wedi'u cyflawni y gwnaethoch nodi yn nhasg 1 rhan a neu feysydd dysgu newydd yr hoffech eu datblygu?



“Un o ffactorau cydnabyddedig gweithlu proffesiynol yw’r defnydd rhagweithiol o ddatblygiad proffesiynol parhaus, fel y gall staff ehangu eu gwybodaeth a’u sgiliau ar gyfer ymarfer effeithiol sy’n gwella’n barhaus. Felly, mae’n agwedd ganolog ar wella ymarfer gwaith cymdeithasol dros amser, rhywbeth y mae pob gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol a’r unigolion sy’n rhoi eu ffydd yn y gofal a’r cymorth hwnnw yn dyheu amdano.”

Sarah Roschira – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – 2014



Rhaglen Cydgynhoi Gwaith Cymdeithasol Porth Agored

Pam fod yr adborth a gawn gan unigolion rydym yn gweithio gyda nhw mor bwysig?

- Dangos ein hymrwymiad i werthfawrogi arbenigedd pawb yn gyfartal
- Deall safbwynt y bobl rydym yn gweithio gyda nhw a gwrando ar eu barn yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Gweithio o fewn ein Cod Ymarfer Proffesiynol ein hunain (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017)
- Cynnwys pobl rydym yn gweithio gyda nhw yn ein datblygiad proffesiynol a'n dysgu ein hunain
- Gwella profiad y bobl rydym yn gweithio gyda nhw.

Beth mae'r bobl rydyn ni'n
gweithio gyda nhw yn ei
ddweud?

Yr hyn y mae gweithwyr
cymdeithasol yn ei ddweud

Fel unigolyn
sy'n defnyddio
gwasanaeth ni
ofynnwyd i mi am
adborth gan unrhyw
weithiwr cymdeithasol
mewn 20 mlynedd!

Rwy'n meddwl y
byddai'r cyfle i wneud
hyn wedi fy ngrymuso
ac wedi fy helpu i
deimlo bod rhywun yn
gwrando arnaf ac yn fy
neall, a byddwn yn
gwerthfawrogi hyn

Fel gweithiwr
proffesiynol,
rwy'n
gwerthfawrogi
adborth gan
unigolion rwy'n
gweithio gyda nhw,
rwy'n teimlo ei fod
yn hanfodol i lywio
fy ymarfer er
mwyn gallu
adfyfyrio a
datblygu fy sgiliau

Tasg 1 b – Cwestiwn 2

Ymarfer 5

Adlewyrchwch ar adborth a gawsoch gan unigolion sydd angen gofal a chymorth a/neu eu gofalwyr yr ydych wedi gweithio gyda nhw.

Ystyriwch sut mae'r wybodaeth hon wedi helpu i lunio eich ymarfer a'ch datblygiad proffesiynol yn y dyfodol.

Sylwer:

- Gall hyn fod yn unrhyw adborth a gawsoch; canmoliaeth, cwyn, sylw wrth fynd heibio neu gellir ei gymryd o'r arsylwad (tasg 2) os yw'n berthnasol.
- Rhaid i hwn fod yn adborth i unigolion sydd angen gofal a chymorth nid gweithwyr proffesiynol eraill.




Cwblhau'r Portffolio

Meini Prawf Marcio

- Mae'r meini prawf marcio yn rhoi'r safonau gofynnol y mae angen eu bodloni er mwyn llwyddo yn ogystal ag esboniad pellach o sut i gyflawni marciau uwch.
- Mae'n bwysig eich bod yn cyfeirio at hwn i wneud yn siŵr eich bod yn bodloni'r meini prawf
- Cymerwch amser i edrych drwy'r meini prawf marcio ar gyfer pob tasg
- Rhaid i chi fodloni pob elfen o'r meini prawf marcio ac ateb pob elfen o'r cwestiwn i basio.

Cynllun Marcio

- Tasg 1 - Adolygiad datblygiadol (rhan a a b) = 20% o'r marc
- Tasg 2 - Arsylwi ymarfer gwaith cymdeithasol = 20% o'r marc
- Tasg 3 - Astudiaeth achos diogelu = 50% o'r marc
- Tasg 4 – Diogelu mewn maes nad yw'n brif faes gwaith i chi = 10% o'r marc
- Mae gofyn i chi lwyddo ym mhob un o'r 4 tasg er mwyn pasio'r portffolio.



Canlyniadau Dysgu

Cofiwch y dylid rhoi tystiolaeth o'r 3 prif thema/canlyniad dysgu drwy gydol y portffolio (gweler atodiad 4 y llawlyfr)

- Dadansoddi wrth asesu
- Cydweithio
- Barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth





Cwblhau'r Portffolio

Ymarfer 6

Ble rydych chi nawr mewn perthynas â chwblhau'r aseiniadau/portffolio?

Nodwch unrhyw feysydd y mae angen rhagor o eglurhad arnynt.

Ystyriwch bob adran:

- Tasg 1 – Adolygiad Datblygiad Proffesiynol
- Tasg 2 - Arsylwad o Ymarfer
- Tasg 3 - Diogelu
- Tasg 4 - Diogelu mewn maes nad yw'n brif faes gwaith i chi.

Rhestr wirio



Tasg 1 - Rhaid integreiddio a chyfeirio at fodel(au) o adlewyrchudrwyddi draw yn rhan a a b a chymryd i ystyriaeth hyfforddiant, dysgu, ymchwil a defnyddio goruchwyliaeth.



Mae angen i ran a a b ddarparu cyfeiriadau/tystiolaeth academaidd.

Rhan a

- Rhaid nodi anghenion dysgu'r dyfodol o dan **bob un** o ganlyniadau dysgu SCW 3 - dyma'r rhan fwyaf o'r dasg
- Ni ddylai adlewyrchu ar ddysgu a datblygiad yn y gorffennol fod yn fwy na chwarter y cyfanswm a ysgrifennir.
- Adlewyrchwch ar eich anghenion dysgu yn y dyfodol a sut rydych yn bwriadu eu diwallu
 - Dadansoddi wrth asesu
 - Cydweithio
 - Barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth

Rhan b

- Ystyriwch mewn trafodaeth â mentor/goruchwyliwr/rheolwr llinell i ba raddau y mae anghenion dysgu yn rhan a wedi'u cyflawni
- Nodwch unrhyw anghenion dysgu ychwanegol i gefnogi eich datblygiad yn y pontio i ddod yn ymarferydd profiadol
- Adfyfyriwch ar adborth gan unigolion a sut mae'r adborth hwn wedi llywio eich datblygiad proffesiynol yn y dyfodol.

Rhestr wirio

Tasg 2 - Arsylwad o Ymarfer

- Sicrhau bod y cyflwyniad yn gosod y cefndir yn glir e.e. rhoi oedran, ethnigrwydd, rhyw, diwylliant, anghenion iaith ac ati. Rhoi trafodaeth glir ynglŷn â chael caniatâd ar gyfer yr arsylwad ac unrhyw effaith y gallai hyn ei chael.
- Adlewyrchu'n glir ar ddulliau cyfathrebu, moeseg, gwerthoedd a'r defnydd o ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Cyfeirio at y Cod Ymarfer Proffesiynol (nid oes gofyniad i roi pob pwynt e.e., 1.2, 1.3 ac ati, dim ond cyfeirio at y ddogfen (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017)
- Cynnwys adfyfyrdod ar y cyd-destun Cymreig a thynnu sylw at y “Cynnig Rhagweithiol” a chyfeirio at i “Mwy na Geiriau” (Llywodraeth Cymru, 2022-2027)
- Gwyllo'r fideos “Mwy na geiriau”, bydd hyn yn llywio adfyfyrdod y dysgwr.

Rhestr wirio

Tasg 3

Dylai'r cyflwyniadau osod y cefndir yn glir ee rhoi oedran, ethnigrwydd, rhyw, iaith a siaredir ac ati a thynnu sylw at ddeddfwriaeth berthnasol i'w thrafod

- Cyfeirio'n glir at, ac adfyfyrio'n feirniadol ar y ddeddfwriaeth gywir a mwyaf cyfredol mewn perthynas â **diogelu yn eich maes gwaith** (gan gynnwys Cymru, y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd (UE) a thu allan i'r UE)
- Sefydlu eich rôl yn y mater/digwyddiad diogelu
- Adfyfyrio ar 3 chanlyniad dysgu SCW (gweler atodiad 4)
- Mae'n bwysig bod yn adfyfyriol a pheidio â bod yn rhy fanwl
- Cynnwys adfyfyrdod ar “**ddamcaniaethau**” mae hyn yn golygu **mwy** nag un ddamcaniaeth, gwnewch yn siŵr bod damcaniaethau'n cael eu cyfeirio'n gywir at eu ffynhonnell
- Trafod byrddau diogelu a dimensiwn gweithio yng Nghymru.

Rhestr wirio

Tasg 4

- Sicrhau bod y gwaith yn seiliedig ar faes nad yw'n brif faes gwaith i chi, ee os yw tasg 3 yn seiliedig ar dasg achos diogelu plentyn **rhaid** i 4 drafod diogelu oedolion ac i'r gwrthwyneb
- Amlygu'n glir y gwahaniaethau rhwng diogelu oedolion a phlant
- Sicrhau mai deddfwriaeth, polisi a gweithdrefn yw'r rhai mwyaf cyfredol gyda'r dyddiad a'r cyfeirnodau cywir.

Awgrymiadau a Chynghorion



Gwnewch yn siŵr eich bod yn:

- Ateb holl elfennau'r cwestiwn yn llawn
- Prawfddarllen eich gwaith cyn ei gyflwyno.

Materion cyffredin

- Cyfeiriadau gwael neu adran fawr heb gyfeiriadau
- Acronymau heb eu rhoi yn llawn yn y lle cyntaf
- Blwyddyn heb ei rhoi gyda Deddfau/cyfeirnodau
- Deddfau a gwaith arall wedi'u dyfynnu ond heb gyfeiriadau (byddwch yn ofalus rhag llên-ladrad)
- Bod yn or-fanwl mewn tasgau adfyfyriol.
- Ddim yn bodloni holl elfennau'r meini prawf marcio yn llawn
- Rhestr cyfeiriadau ddim yn cyfateb mewn dyfyniadau testun neu gyfeiriadau anghywir. Dim ond un rhestr gyfeiriadau sydd ei hangen arnoch ar gyfer pob tasg.
- **Mae angen cyfeirnod academaidd ar bob adran; dylai hyn gynnwys, lle bo'n berthnasol, ymchwil academaidd diweddar/cyfredol.**

Osgoi Llên-ladrad

Byddwch yn ymwybodol y dylech;

- Cydnabod, gan gyfeirnod i'n briodol, unrhyw waith nad yw'n eiddo i chi.

Ni ddylech:

- Cyflawni hunan lôn-ladrad o waith blaenorol a gyflwynwyd gennych, ee yn eich gradd mewn gwaith cymdeithasol
- Defnyddio portffolio dysgwr arall fel arweiniad neu gopïo unrhyw ran o bortffolio dysgwr arall
- Y rheol euraidd yw “os oes gennych unrhyw amheuaeth rhowch gyfeiriadau”.
- Mae'r Brifysgol yn ymchwilio i achosion o lôn-ladrad - gall achos difrifol o lôn-ladrad bwriadol arwain at fethiant a chael ei adrodd i SCW.



Pwysigrwydd Cyfrinachedd

- Mae'n bwysig na ellir adnabod unrhyw unigolyn/unigolion o fewn eich portffolio, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r wybodaeth yn y portffolio.
- Defnyddiwch rifau **nid** llythrennau neu enwau ffug i adnabod unigolion rydych yn gweithio gyda nhw.
- Bydd toriad amodau bach yn arwain at dynnu 5 marc o'ch marc am y dasg honno.
- Bydd toriad amodau mawr (enw rhywun neu fanylion adnabod) yn golygu na fydd y gwaith yn cael ei ddarllen. Bydd yn cael ei ddychwelyd atoch i ddileu'r toriad a bydd yr ailgyflwyno'n cael ei gapio ar 40%.
- **Rhaid i chi gymryd cyfrifoldeb personol am gadw at ofynion cyfrinachedd a pheidio â dibynnu ar eraill i amlygu achosion o dorri amodau.**

Proses Gyflwyno

- Mae cyflwyno Prifysgol y Drindod Dewi Sant trwy Moodle
- Cyflwynwch/llwythwch eich portffolio drwy eich cyfrif Moodle cyn y dyddiad cau (12 canol dydd fel arfer).
- Mae gofyn i chi gyflwyno pob un o 5 elfen (Tasg) y portffolio i'r dolenni cyflwyno Turnitin priodol. Lawrlwythwch y profforma ar gyfer pob tasg o Moodle.
- Dylai pwynt cyflwyno'r adran olaf “Rhestr gyfeiriadau a gwybodaeth arall – 7”, gynnwys eich rhestr gyfeiriadau ynghyd â manylion y gweithdai a fynychwyd, adroddiad y mentor, manylion y dysgwr, llofnodion a dilysiad rheolwr llinell, a'r cytundeb dysgu. Dim ond un rhestr gyfeiriadau sydd ei hangen arnoch chi, ac rydych chi'n ei chynnwys yn yr adran hon.
- Sicrhewch fod eich gwaith ysgrifenedig yn adrannau 2-7 yn dilyn y canllawiau ynglŷn â chyfrinachedd a llên-ladrad.
- Pan ofynnir am enw ffeil ar Turnitin nodwch eich Enw a Rhif Myfyfyriwr.
- Sicrhewch eich bod yn cyflwyno'r dasg gywir i'r pwyntiau cyflwyno cywir.

Asesu/Marcio

- Lle bynnag y bo modd, caiff portffolios eu marcio'n gyntaf bob amser gan aseswr o Awdurdod Lleol gwahanol i'r dysgwr.
- Rhyddheir marciau tua 6 wythnos ar ôl y cyflwyniadau. Gwiriwch Moodle am wybodaeth ynglŷn â hyn.
- Mae marciau bob amser yn amodol yn unig nes iddynt gael eu cadarnhau gan y bwrdd arholi.

Gorffen

- Ydych chi wedi trefnu eich diwrnodau astudio? Os na, sicrhewch eich bod yn eu trefnu.
- Mae'r weithdrefn ynghylch amgylchiadau esgusodol ac atal astudiaethau yn llawlyfr y rhaglen ac ar Moodle
- Cysylltwch â'r adran hyfforddi os ydych yn cael unrhyw broblemau
- Llenwch a dychwelwch yr holiaduron gwerthuso y byddwch yn eu derbyn ar ôl cwblhau'r rhaglen
- Peidiwch â'i adael tan y funud olaf!

Gweddill y dydd

- Amser unigol gyda'r hyfforddwyr i drafod eich gwaith
- Amser i wneud gwaith ar bortffolios.



Gwerthusiad

Beth yn eich barn chi a weithiodd yn dda yn y gweithdy/beth oedd yn ddefnyddiol i chi heddiw?

A oedd unrhyw beth nad oeddech yn meddwl a weithiodd cystal?

A oes gennych unrhyw awgrymiadau am ffyrdd y gallwn wella'r gweithdai hyn?

- Bydd yr hyfforddwyr yn eich gadael am 5 munud i wneud gwerthusiad o'r diwrnod.
- A fyddai modd i un ohonoch gymryd nodiadau o'r adborth gan y grŵp a'i drosglwyddo i'r hyfforddwr (naill ai teipiwch yn y blwch trafod/sgwrsio os ar-lein neu ar siart droi os wyneb yn wyneb).

Diolch.